

Iechyd a Lles yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân:

Annwyl Riant / Warchodwr,

Fel rydych efallai'n gwybod yn barod, mae'r cwricwlwm yng Nghymru yn mynd trwy'r broses o newid ar hyn o bryd. Mae'r Athro Graham Donaldson wedi cynnal arolwg o'r cwricwlwm presennol ac mae wedi cynnig argymhellion ar gyfer cwricwlwm newydd.

Bydd y cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnwys y meysydd canlynol:

Y Celfyddydau mynegiannol / Iechyd a lles / Dyniaethau / Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu / Mathemateg a rhifedd / Gwyddoniaeth a thechnoleg

Mae Donaldson yn pwysleisio'r angen i'n disgyblion fod yn


- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- gyfranwyr mentrus, creadigol
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus
- unigolion iach, hyderus

Mae'r ysgol yn rhan o'r grŵp sy'n llunio'r cwricwlwm iechyd a lles ac mae hwn yn gyfle gwych i ni weld unrhyw newidiadau a datblygiadau i'r cwricwlwm newydd cyn y mwyafrif o ysgolion. Yn sgil hyn, rydym yn gallu gweld faint o bwyslais sy'n mynd i fod ar iechyd a lles y disgyblion gyda'r cwricwlwm newydd ac rydym yn gyffrous iawn am y newidiadau hyn.

Ar hyn y bryd, rydym yn gweithredu rhaglen Kiva, rhaglen wrth-fwlio, yn yr ysgol ar y cyd gydag Ysgol Panteg a Gwynllyw. Rydym yn addysgu gwersi Kiva ar brynhawn dydd Mercher am yn ail wythnos. Rydym nawr eisiau cymryd hwn gam ymhellach ac, ar brynhawn dydd Mercher bob pythefnos, byddwn yn cynnal prynhawn sy'n canolbwyntio ar les. Bydd y prynhawn lles yn brynhawn i ffwrdd o'r cwricwlwm sy'n bodoli'n barod ond bydd yn gam cyffrous ymlaen wrth i ni ddechrau meddwl am y cwricwlwm newydd. Byddwn yn dal i addysgu yn y sesiynau hyn ond byddwn yn meddwl mwy yng nghyd-destun iechyd a lles e.e. hawliau dynol, diogelwch ar y we, gweithdai gydag asiantaethau gwahanol megis Heddlu Gwent ayyb. Byddwn yn trio trefnu bod unrhyw ymweliadau a gweithdai bellach yn cael eu cynnal ar brynhawn dydd Mercher a byddwn yn ceisio gwneud y gwersi hyn yn ymarferol ac yn greadigol.

Bydd y sesiynau hyn yn dechrau ar ddydd **Mercher, Mai yr 2il**. Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi ar gael i gynnig unrhyw weithdai ayyb ar brynhawn dydd Mercher, cysylltwch gyda ni.

Diolch, Miss Passmore,
Mrs Dagleish a Miss Sheppard (Tim Lles)



Health and Wellbeing at Ysgol Gymraeg Cwmbrân:

Dear Parent / Guardian,

As you may already be aware, the curriculum in Wales is currently going through a process of change. Professor Graham Donaldson had reviewed the current curriculum and has offered recommendations for a new curriculum.

The new curriculum for Wales is going to include the following areas:

Expressive arts / Health and well-being / Humanities / Languages, literacy and communication / Mathematics and numeracy / Science and technology.

Donaldson has emphasised the need for the pupils to be:

- **ambitious, capable learners**
- **enterprising, creative contributors**
- **ethical, informed citizens**
- **healthy, confident individuals**

The school is part of the group that is reforming the new curriculum, concentrating on the health and wellbeing area. This is an excellent opportunity for us to see any changes and developments to the curriculum before the majority of schools and we can see how much emphasis is going to be put on health and wellbeing in the new curriculum and we're very excited about these changes.

We're currently trialling the Kiva Programme, an anti-bullying programme, in school, along with Ysgol Panteg and Gwynllyw. We teach these lessons on alternative Wednesdays every other Wednesday. We now want to take this a step further and, on a Wednesday afternoon every fortnight, we will be holding a health and wellbeing afternoon in school. These afternoons will be an afternoon away from the curriculum as it stands now but will be an exciting step forward as we start thinking about the new curriculum. We'll still be teaching in these sessions but we'll be teaching with more of a focus on health and wellbeing e.g. human rights, internet safety and workshops with different agencies e.g. Gwent Police etc. We'll try to book any visits from outside agencies on a Wednesday afternoon where possible and we'll try to make these sessions as practical and creative as possible.

These sessions will start on **Wednesday, May 2nd**. If you have any questions or if you're available to offer any workshops or specialist sessions on a Wednesday afternoon, please contact us.

Diolch / Thank you, Miss Passmore,
Mrs Dagleish and Miss Sheppard (Health and Wellbeing Team)